# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y RHAGLEN GRAFFU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 13 CHWEFROR 2017 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL:** Bu'r cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | U C Clay | A C S Colburn |
| S E Crouch | N J Davies | C.R. Evans |
| E W Fitzgerald | T J Hennegan | C A Holley |
| J W Jones | E J King | G J Tanner |

**Aelodau Cyfetholedig**
P R Hood-Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Chris Williams | Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol |
| Wendy Parkin | Uwch-gyfreithiwr |
| Matthew Joyce-Brown | Cyfreithiwr |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Gareth Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Y Cynghorydd: F M Gordon
Aelod Cyfetholedig: D Anderson-Thomas

**DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiant canlynol:

Y Cynghorydd G J Tanner - personol - Cofnod Rhif.134 - Safon Ansawdd Tai Cymru - Yr wyf yn denant y cyngor.

131 **GWAHARDD PLEIDLEISIAU CHWIP A DATGAN CHWIPIAU'R PLEIDIAU.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 132 COFNODION:

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2017 fel cofnod cywir.

## 133 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 134 SESIWN HOLI AELOD Y CABINET: AELOD Y CABINET DROS WASANAETHAU'R GENHEDLAETH NESAF (Y CYNGHORYDD ANDREA LEWIS).

Rhoddod y Cynghorydd Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf anerchiad llafar yn dilyn yr adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd a thynnodd sylw at y canlynol:

- Prosiect Rhagor o Gartrefi Cyngor a'i gynnydd - cyfeiriodd at yr archwiliad dichonoldeb o dir ar gyfer tai sydd ar ddod a'r angen am fwy o dai fforddiadwy. Siaradodd am yr angen i sicrhau partner datblygu ar gyfer y gallu i ehangu'r cynlluniau adeiladu tai y tu hwnt i'r prosiectau peilot.
- Cynnydd a gwelliannau o ran Safon Ansawdd Tai Cymru
- Gwasanaethau Masnachol a'u pwysigrwydd wrth gefnogi staff ac adrannau o ran cynhyrchu incwm ac effeithlonrwydd
- Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol a'i chyfranogaeth yn y Rhaglen Cyfalaf Addysg.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau agr Aelod y Cabinet yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Prosiect Rhagor o Gartrefi Cyngor
  - cynnydd â'r datblygiad cyntaf yn Ffordd Milford
  - clustodi cartrefi newydd
  - costau
  - y gallu i adeiladu tai
  - dysgu gan eraill
- Safon Ansawdd Tai Cymru – camau gweithredu’n dilyn y Gweithgor Craffu diweddar (gan gynnwys canolbwyntio ar wella ymrwymiadau â thenantiaid ac Aelodau Wardiau Lleol)
- Prentisiaethau hyfforddiant corfforaethol - llwyddiant trwy gyflawniadau crefftwyr cymwys a chanolbwyntio ar ddatblygu sgiliau lleol.
- Tai gwag
- Cynnydd ar leihau'r amser ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- Cynnydd o ran darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

**PENDERFYNWYD** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

135 **ADRODDIAD YR YMCHWILIAD CRAFFU TERFYNOL: TRECHU TLODI (Y CYNGHORYDD SYBIL CROUCH, CYNULLYDD).**

Cyflwynodd y Cynghorydd Sybil Crouch, Cynullydd, yr adroddiad terfynol ynglŷn â'r gwaith a wnaed o ran yr Ymchwiliad Craffu Trechu Tlodi. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio'n benodol ar sut gellis gwella Strategaeth Trechu Tlodi'r cyngor. Crynhodd y canfyddiadau allweddol, y casgliadau a'r argymhellion fel y'u nodir yn yr adroddiad terfynol.

Ymhlith yr argymhellion amlygodd yr angen i:

- gynnwys y rhai sy'n profi tlodi yn y strategaeth a sefydlu Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi yn dilyn model Leeds
- datblygu Cynllun Gweithredu 'cyngor cyfan' newydd
- cynnwys cyfrifoldebau trechi dlodi penodol o fewn pob portffolio cabinet.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ohebiaeth a dderbyniwyd ganddi gan Aelod y Cabinet dros Wrthdlodi a Chymunedau am adroddiad terfynol yr ymchwiliad. Dilynodd trafodaeth am gynnwys yr adroddiad ac y ddylid ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad. Wrth wneud hynny ystyriodd y pwyllgor a gasglwyd tystiolaeth ddigonol i fynd i'r afael â'r cwestiwn yr oedd yr ymchwiliad yn ceisio’i ateb.

Nodwodd y pwyllgor fod meysydd niferus wedi'u nodi gan y panel i graffu arnynt yn y dyfodol. Nododd y cadeirydd y byddai'r awgrymiadau hyn yn cael eu bwydo i'r Gynhadledd Cynllunio Gwaith Craffu nesaf yn y flwyddyn ddinesig newydd.

Diolchodd y Cadeirydd y Cynullydd ac Aelodau'r Panel am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD:**

1) y bydd adroddiad yn mynd gerbron y Cabinet am benderfyniad a
2) y darperir dolen gyswllt i'r 'Pecyn Tystiolaeth' a gyhoeddwyd gan y panel i Aelodau’r Pwyllgor.

136 **ADRODDIADAU CYNNYDD Y PANEL PERFFORMIAD CRAFFU:**

Darparwyd adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor ar waith y Panel Perfformiad Ysgolion.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

137 **RHAGLEN WAITH CRAFFU 2016/17.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu ar gyfer 2016/2017 i’w adolygu.

Dywedodd y byddai cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 9 Mawrth 2017 ar gyfer y sesiwn flynyddol ar droseddu ac anhrefn. Ychwanegodd, er mwyn rheoli llwyth gwaith y Pwyllgor, yr ymdrinnir â’r eitemau sefydlog arferol o ran y Rhaglen Waith a Busnes y Pwyllgor hefyd ar 9 Mawrth. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i ganolbwyntio ar yr eitemau sydd i'w trafod yn y cyfarfod a drefnir ar gyfer 13 Mawrth. Disgwylid y byddai hyn yn cynnwys craffu cyn penderfynu o adroddiadau'r cabinet ar Sgwâr y Castell ac Adfywio Canol y Ddinas

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

138 **AELODAETH PANELI A GWEITHGORAU CRAFFU.**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad a oedd yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i aelodaeth y paneli/gweithgorau craffu.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r diwygiadau canlynol i'r paneli/gweithgorau, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad:

Gweithgor Cynhwysiad Digidol
Tynnu enw'r Cynghorydd Tony Colburn

139 **LLYTHYRAU CRAFFU.**

Adroddodd y Cadeirydd am gofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

**PENDERFYNWYD** nodi cofnod llythyrau'r Tîm Craffu a'r wybodaeth ddiweddaraf.

140 **ADBORTH O DDIGWYDDIADAU CRAFFU DIWEDDAR.**

Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau craffu'n ddiweddar.

141 **DIGWYDDIADAU CRAFFU SYDD AR DDOD.**

Nid oedd dim digwyddiadau craffu ar ddod.

142 **CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO (ER GWYBODAETH).**

Nodwyd cynllun gwaith y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2016/2017.

Nododd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu mynd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio sydd ar ddod.

143 **DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD PWYLLGOR AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016/17 (POB UN AM 4.30PM).**

Nodwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd y pwyllgor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

144 **DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD PANELI/GWEITHGORAU SYDD AR DDOD.**

Rhoddwyd dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.31 pm

**CADEIRYDD**